

Adroddiad Plentynndod Da 2017

Crynodeb Cymru



**The
Children's
Society**

Mae Cymdeithas y Plant yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd â bywydau cymhleth. Yn aml, bydd ganddyn nhw lawer o broblemau difrifol, a gall y cyfuniad hwn o broblemau eu hatal rhag cael plentyndod hapus.

Mae ein Hadroddiad Plentyndod Da 2017 yn dangos bod rhai o'r problemau hyn ar raddfa enbyd – gyda 200,000 o blant 10 i 17 oed yn dioddef esgeulustod emosiynol, teuluoedd 1.7 miliwn o blant dan faich dyled, a 2.2 miliwn o blant dan fygythiad troseddau yn eu cymdogaeth leol. Mae un ferch o bob tair yn ofni cael ei dilyn gan ddieithryn ac un bachgen o bob pedwar yn ofni rhag i rywun ymosod arno. Wynebodd hanner can mil o blant 10 i 17 oed saith neu fwy o anafteision o'r fath yng Nghymru y llynedd.

Mae ein canfyddiadau yn dangos yr effaith enbyd y gall y problemau difrifol hyn ei chael ar sut mae plant yn teimlo am eu bywydau. Eleni, mae cyfradd hapusrwydd plant a phobl ifanc yn gyffredinol ar ei hisaf ers 2010. Mae'n destun pryder bod plant sy'n wynebu saith neu fwy o'r problemau difrifol y gofynnon ni amdany'n nhw 10 gwaith yn fwy tebygol o fod yn anhapus na'r rhai sydd heb ddim.

Ar draws y wlad, mae gan wasanaethau plant awdurdodau lleol ran ganolog yn y gwaith o helpu plant a theuluoedd i reoli a goresgyn y problemau difrifol sydd yn eu bywydau.

Fodd bynnag, mae mwy a mwy o fwllch yn ymddangos rhwng graddfa'r angen a'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol helpu plant a'u teuluoedd i ymdrin â'r problemau hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i adolygu'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau plant awdurdodau lleol er mwyn iddynt gael yr adnoddau digonol i fynd i'r afael â maint y galw.

Ar yr un pryd, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau eu bod yn rhoi lles plant yn faes blaenoriaeth yn eu hardaloedd i'r holl asiantaethau lleol. Dylent sicrhau mai lles plant yw'r prif ffocws yn eu cynlluniau lles lleol a chynnwys plant wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

All hi ddim bod yn dderbyniol bod cynifer o blant a phobl ifanc yn y wlad hon yn dioddef problemau difrifol sy'n eu gwneud yn anhapus. Er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc ledled y wlad rhaid sicrhau'r adnoddau cywir a blaenoriaethu gwasanaethau sy'n helpu plant yn gynnar cyn i'r sefyllfa droi'n argyfwng.

Deall lles plant

Mae gwaith ymchwil gyda phlant mewn gwahanol gyd-destun ac amrywiol wledydd o gwmpas y byd yn cadarnhau bod plant eisiau i bobl wrando arnynt, ac maent yn awyddus i bobl ofyn eu barn hwy ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

Ers 2005, mae Cymdeithas y Plant wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Efrog ar raglen ymchwil flaengar yn archwilio safbwyntiau plant eu hunain am eu lles, gan ddatblygu mesurau cadarn i fesur lles plant dros amser. Dyma'r rhaglen genedlaethol helaethaf yn y byd ar les goddrychol plant.

Mae'r tueddiadau diweddaraf dros amser yn dangos, er bod y rhan fwyaf o blant yn hapus gyda'u bywyd yn gyffredinol, maen nhw'n llai hapus nag oedden nhw yn 2010. Mae lles lleiafrif arwyddocaol ohonynt – rhwng 5 a 10% gan ddibynnu ar y mesur – yn gyffredinol isel.¹

Ffigur 1: Boddhad plant â'u bywyd yn gyffredinol

Bodlon gyda bywyd
yn gyffredinol



Boddhad cymedrig (allan o 10)

% gyda lles isel

4.8%



Ton Arolwg Aelwydydd 16, Mai/Mehefin 2017, 10 i 17 oed, Prydain
Pwysiad cyfartal o ran oed a rhyw

Profiadau plant o anafanteision lluosog

Mae'n hysbys ers tro fod plant sy'n cael profiadau anffafriol neu anafanteision yn eu bywydau yn debygol o gael canlyniadau gwaeth na phlant eraill yn eu plentyndod diweddarach neu ar ôl tyfu'n oedolion. Mae rhai grwpiau o blant, fel plant o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o brofi anafanteision. Hefyd, ceir tystiolaeth fod casgliad lluosog o brofiadau anafateisiol yn dod â chanlyniadau gwaeth i'w dilyn. Yr hyn sy'n llai amlwg yw a ydyw profiadau lluosog o anafanteision yn effeithio ar les plant yn y presennol a sut mae hynny'n digwydd.

O'n profiad ninnau o redeg gwasanaethau lleol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc sydd â rhai o'r problemau mwyaf cymhleth, gwyddom nad dim ond problemau unigol y byddan nhw'n eu hwynebu yn aml. Gan amlaf byddan nhw'n wynebu anafanteision lluosog mewn sawl agwedd ar eu bywydau.

Mae hyn yn rhywbeth a welsom yn ein hymchwil hefyd. Yn ein hastudiaeth ansoddol hydredol - Understanding Childhoods² – o 60 o blant a fagwyd mewn tlodi yn Lloegr, gwelsom wahaniaethau pwysig yn ein sampl. Er bod yr holl blant yn dioddef caledi ariannol i ryw raddau, roedd rhai yn wynebu amrywiaeth eang o heriau eraill mewn gwahanol agweddau ar eu bywydau hefyd.

Fe ddefnyddiom ni'r don olaf o arolygon aelwydydd o 3,000 o blant 10 i 17 oed a'u rhieni,³ a'u holi am restr o 27 math o anafanteision y gallai'r teulu fod wedi eu hwynebu dros y pum mlynedd diwethaf. Holwyd y plant am rai o'r anafanteision, ond holwyd y rhieni am y mwyafrif.

Dewiswyd y rhestr hon am ei bod yn bodloni nifer o feini prawf:

- Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos y gall yr eitemau hyn ynddynt eu hunain fod yn 'anafanteision' i blant.
- Teimlem ei bod hi'n foesegol dderbyniol i ofyn naill ai i'r rhieni neu i'r plant a oedden nhw wedi profi'r ffactorau hyn yn eu bywydau.
- Roedd yn cynnwys ystod o eitemau yn cynnwys profiadau sy'n gymharol brin a rhai sy'n effeithio ar gyfran arwyddocaol o'r boblogaeth.
- Roedd cydbwysedd o eitemau yn effeithio ar blant yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol yn sgil yr amgylchedd teuluol neu faterol lle roedden nhw'n byw.

Stori Mia

Mae Mia yn 11 mlwydd oed ac yn ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Mae'n byw gyda'i mam a'i dau frawd iau mewn fflat lle bu'n byw am y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n treulio bob yn ail benwythnos gyda'i thad sy'n byw mewn tref gyfagos. Nid yw tad Mia'n gallu gweithio mwyach oherwydd problemau iechyd, ac mae ei mam yn fam llawn amser ar hyn o bryd. Mae tlodi'n llywio llawer o agweddau ar fywyd Mia bob dydd – i ble mae'n gallu mynd, yr hyn mae'n gallu ei wneud ac a yw hi'n cael mynd ar wyliau.

Mae cyffuriau, alcohol a salwch meddwl wedi bod yn elfennau pwerau ym mywydau rhai o berthnasau agosaf a ffrindiau teuluol Mia, ac mae hi wedi gweld effaith ysgytiol trais rhyngbersonol a'r ffordd y gall hynny chwalu bywydau pobl.

Mae llawer o'r trallodion rydym ni'n dueddol o'u cysylltu ag anfanteision lluosog – tlodi, trais, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a digartrefedd - yn bresennol ym mywyd Mia. Ond yn achos Mia, y profiad o'r pethau hyn yn ogystal â chaledi arall, llai amlwg sydd hefyd yn bwysig.

Yn ystod y naw mlynedd diwethaf mae hi wedi symud cartref saith gwaith. Mae hyn wedi effeithio ar y ffordd mae hi'n gwneud ffrindiau yn y gymdogaeth – peidio â chael perthynas agos gyda phlant eraill yn yr ardal newydd – ac mae wedi ei hatal hi rhag tyfu gwreiddiau mewn lle y gall ei alw'n gartref. Un o'r pethau sydd yn wir yn boen i Mia yw'r ffordd y mae ei chymdogion yn gweiddi a sgrechian drwy'r amser, yn rasio eu beiciau modur swmlyd ar hyd y ffyrdd a chlepiant swmlyd y drws ffrynt yn agor a chau 24 awr y dydd, gan greu amgylchedd o straen a gofid parhaus.

Pe gallai Mia helpu ei theulu mewn unrhyw fodd, byddai'n rhoi rhagor o arian iddyn nhw. Nid llawer o arian, dim ond swm 'normal' – digon fel bod ei mam yn gallu stopio gofidio drwy'r amser a mwynhau ambell achlysur arbennig o bosibl, heb deimlo'n euog. A phe gallai Mia newid unrhyw beth yn ei bywyd ei hun byddai'n creu dyfodol ar ei chyfer sy'n rhydd o dristwch a dictter, lle byddai'n hapus ac yn parhau'n hapus weddill ei hoes.

Amllder y gwahanol fathau o anafanteision

Yn unol â'n disgwyliadau, gwelsom fod rhai mathau o anafanteision yn fwy cyffredin nag eraill. Trwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2016, rydym ni'n amcangyfrif y bydd tua 2.2 miliwn o blant 10 i 17 oed ledled y DU yn poeni am droseddau yn eu hardal leol a 2.1 miliwn yn byw ar aelwydydd sy'n cael trafferth talu eu biliau. Mae'r rhestr lawn o anafanteision a archwiliwyd wedi'i nodi yn Nhabl 1.

Tabl 1: Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer gwahanol fathau o anafanteision

Math o anfantais	% o blant	Poblogaeth a amcangyfrifwyd o blant 10 i 17 oed sy'n profi anafanteision yn y DU ⁴
Perthynas rhiant-plentyn		
Esgeulustod emosiynol: Plentyn wedi dioddef esgeulustod emosiynol	4.1%	200,000
Esgeulustod goruchwyllo: Plentyn wedi dioddef esgeulustod o ran goruchwyliaeth	4.5%	250,000
Gofalwr ifanc: Y plentyn yn ofalwr ifanc	9.3%	500,000
Ffactorau teuluol/yr aelwyd		
Trais domestig: Rhiant (sy'n ymateb) wedi dioddef trais domestig	13.3%	750,000
Alcohol: Rhiant (sy'n ymateb) wedi cael problemau gyda defnydd o alcohol	12.4%	700,000
Iechyd meddwl rhiant: Rhiant (sy'n ymateb) wedi cael problem iechyd meddwl	28.4%	1,650,000
Carchar: Rhywun ar yr aelwyd wedi bod yn y carchar	3.9%	200,000
Anabledd/salwch rhiant: (Unrhyw) riant neu ofalwr wedi cael anabledd neu salwch hirdymor	22.2%	1,250,000
Anabledd/salwch plentyn: (Unrhyw) blentyn wedi cael anabledd neu salwch hirdymor	13.1%	750,000
Profedigaeth: Rhywun ar yr aelwyd wedi marw	7.4%	400,000
Trigfannau lluosog: Y teulu wedi symud tŷ sawl gwaith	20.5%	1,150,000
Symud gorfodol: Y teulu wedi bod dan orfodaeth i symud tŷ	13.7%	750,000
Addysg y fam: Y fam wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau	5.2%	300,000
Addysg y tad: Y tad wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau	6.3%	350,000

Tabl 1 (parhad)

Math o anfantais	% o blant	Poblogaeth a amcangyfrifwyd o blant 10 i 17 oed sy'n profi anfantais yn y DU ⁴
Ffactorau Materol		
Dyled: Problem dyled ar yr aelwyd	29.9%	1,700,000
Bywyd anodd: brwydr gyson ar yr aelwyd o ran talu biliau	36.1%	2,100,000
Tlodi plant: Incwm cyfwerth yn llai na 60% o incwm aelwydydd cymedrig	15.1%	850,000
Diweithdra: Y prif enillydd incwm yn ddi-waith	2.1%	100,000
Prydau ysgol am ddim: Y plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim	13.3%	750,000
Amddifadedd: Y teulu wedi defnyddio banc bwyd	8.5%	450,000
Digartrefedd: Y teulu wedi bod yn ddigartref	6.9%	400,000
Perygl o ddigartrefedd: y teulu wedi bod mewn perygl o ddigartrefedd	8.9%	500,000
Gorlenwi: Y plentyn yn rhannu ystafell	10.4%	600,000
Gorlenwi: Y plentyn yn rhannu gwely neu heb wely	2.1%	100,000
Ffactorau'r gymdogaeth		
Diogelwch y gymdogaeth – wedi profi dwy neu ragor o broblemau gyda'r gymdogaeth	32.5%	1,850,000
Diogelwch y gymdogaeth – poeni am ddwy drosedd neu fwy/ymddygiad gwrthgymdeithasol	37.8%	2,200,000
Diogelwch y gymdogaeth - profiad o drosedd / ymddygiad gwrthgymdeithasol	17.0%	950,000

Nifer yr anfanteision

Aethom ati i gyfrif nifer yr anfanteision ym mywydau plant er mwyn archwilio profiadau lluosog plant o anfantais. Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yr ONS ar gyfer 2016, aethom ati i amcangyfrif nifer y plant sy'n cael eu heffeithio gan anfanteision lluosog yng Nghymru. Gan fod ein hamcangyfrifon yn seiliedig ar ddata arolwg Prydain gyfan, ni allant gyfrif am wahaniaethau gwirioneddol mewn amllder yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Er hynny, gallan nhw fod yn ddefnyddiol o ran nodi graddfa'r anfantais lluosog sy'n wynebu plant.

Mae hyn yn dangos nad yw 40,000 o blant rhwng 10 a 17 yn wynebu unrhyw anfantais, ond lleiafrif y plant yw hyn.

Profiad mwy cyffredin - sy'n effeithio ar hanner y boblogaeth - yw bod tri neu fwy o'r anfanteision y gofynnon ni amdanyn nhw yn bresennol ym mywydau'r plant. Ar frig y rhestr, rydym ni'n amcangyfrif bod 50,000 o blant yn wynebu saith neu fwy o anfanteision.

Tabl 2: Cyfraddau a niferoedd plant 10 i 17 sy'n profi anfanteision lluosog yng Nghymru


Nifer o anfanteision â brofiwyd	% o blant	Nifer ystygiedig o blant 10 i 17 mlwydd oed sy'n profi anfantais yng Nghymru ⁴
0	15.6	40,000
1	15.9	45,000
2	15.9	45,000
3	11.8	30,000
4	9.7	25,000
5	7.8	20,000
6	5.5	15,000
7 or more	17.8	50,000
Cyfanswm y nifer o blant 10 i 17 mlwydd oed	100.0	270,000

Effaith anfanteision lluosog ar les plant

Aethom ati i archwilio'r berthynas rhwng nifer yr anfanteision sy'n bresennol ym mywyd plentyn a'i les goddrychol. Fel y gwelir yn Ffigur 2, mae gan anfanteision lluosog berthynas sydd bron yn llinol â lles goddrychol plentyn: po fwyaf yw nifer yr anfanteision y bydd plentyn yn eu hwynebu, mwyaf oll yw'r tebygrwydd iddynt brofi lles isel.

Roedd lles 3% o blant heb unrhyw anfanteision yn isel, ond roedd hyn yn codi i 29% ar gyfer plant â saith neu fwy o anfanteision yn eu bywydau.

Ffigur 2: Anfanteision lluosog a boddhad bywyd plant



Effaith anfanteision unigol ar les plentyn


Wrth edrych ar effaith pob anfantais yn unigol ar les goddrychol plentyn, roedd cysylltiad arwyddocaol â lles plant gan bron pob un o'r anfanteision (ar ôl ystyried amrywiadau rhyw ac oed). Y prif eithriad oedd tad heb ddim cymwysterau addysgol lle gwelwyd mai prin oedd hynny'n gysylltiedig â lles isel.

Mae ffigur 3 yn dangos dwy ffordd o edrych ar y cysylltiad rhwng pob anfantais a lles plentyn. Mae'r cyntaf yn edrych ar ~~pŵer~~ esboniadol pob anfantais sy'n effeithio ar les plentyn ar lefel y boblogaeth. Mae'r blychau glas ar ochr dde'r siart yn dangos ~~pŵer~~ pob anfantais⁵ (ar ôl ystyried oed a rhyw). Gellir gweld y ffigurau fel canran – felly, byw mewn teulu a oedd yn cael trafferth talu biliau oedd â'r ~~pŵer~~ esboniadol mwyaf sef 4.5%.

Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn dueddol o beidio â gweithio cystal ar gyfer anfanteision sy'n weddol brin. Yn yr achosion hyn, gallai'r anfantais gael effaith fawr ar yr ychydig o blant sy'n profi'r anfantais ond na fyddai'n cyfrannu'n fawr at esbonio amrywiadau mewn lles plant yn y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

Hefyd, mae blychau oren ffigur 3 yn dangos y gwahaniaeth rhwng plentyn sydd ag anfanteision a phlentyn sydd hebddynt.⁶ Felly, er enghraifft, er mai dim ond 2.1% yw ~~pŵer~~ esboniadol newidyn esgeulustod emosiynol, mae'r anfantais hon yn dangos y bwlch mwyaf (1.3 pwynt ar raddfa 0 i 10) mewn bywyd boddhaus rhwng plant sy'n dioddef esgeulustod a'r gweddill.

Dangosir canrannau'r plant sy'n profi'r anfantais ynghyd â'r disgrifiad o'r anfantais yn y siart at ddibenion gwaith cyfeirio.

Ffigur 3: Anfanteision unigol a bywyd boddhaus plant



Casgliadau

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar ddata newydd o Adroddiad Plentyndod Da 2017 ar brofiadau ystod o 27 o anfoneision yn ymwneud â chydberthynas plant a rhieni, amgylchiadau teulu/aelwyd, ffactorau materol/economaidd a phrofiadau cymdogaeth ymhlith plant 10 i 17 oed.

Profodd mwyafrif helaeth y plant (85%) o leiaf un o'r anfoneision, a mwy na'u hanner (52%) dair neu fwy o anfoneision. Os yw'r cyfrannau hyn - sy'n seiliedig ar ddata arolwg Prydain – yn debyg yng Nghymru, gallwn amcangyfrif y gall hanner can mil o blant yng Nghymru (19%) fod yn profi saith anfantais neu fwy.

Roedd rhai o'r anfoneision yn weddol gyffredin tra bod eraill yn fwy prin. Ofn trosedd oedd yr anfantais fwyaf cyffredin, gan effeithio ar 2.2 miliwn o blant yn y DU, ac un ferch o bob tair yn yr arddegau'n ofni cael ei dilyn gan ddieithryn ac un bachgen o bob pedwar yn poeni y byddai rhywun yn ymosod arno. Yn y DU mae 1.7 miliwn o bobl ifanc yn byw ar aelwydydd lle mae rhieni'n cael trafferth i dalu biliau, a gallwn amcangyfrif bod 200,000 o blant rhwng 10 a 17 oed yn profi esgeulustod emosiynol.

Mae profi unrhyw un o'r anfoneision hyn yn gysylltiedig â lles goddrychol isel i blant. Mae'r bwlch a amcangyfrifir mewn bywyd boddhaus cymedrig (ar raddfa 0 i 10) yn amrywio o tua 0.3 ar gyfer anfoneision fel profiadau lluosog o symud tŵ 0.9 ar gyfer 2% o blant nad oes ganddynt eu gwely eu hunain, a 1.3 ar gyfer 4% o blant sy'n profi esgeulustod emosiynol.

Mae effaith gronnol i'r anfoneision hefyd. O'r plant a brofodd saith anfantais neu fwy, roedd lles isel gan 29% o gymharu â 3% o blant na phrofodd ddim anfoneision.

Argymhellion

Mae'r dystiolaeth a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn tanlinellu pwysigrwydd cefnogaeth gynnar i blant a'u teuluoedd er mwyn osgoi canlyniadau negyddol i'w lles. Rydym ni'n cydnabod datblygiadau diweddar yng Nghymru i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE), megis sefydlu Canolfan ACE i rannu gwybodaeth ac arferion gorau. Mae'r adroddiad hwn yn helpu i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r ystod o anafteision unigol sy'n cyfuno i effeithio ar fywydau plant. Byddai gweithredu'r argymhellion canlynol ar gyfer penderfynwyr cenedlaethol a lleol yn helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn Adroddiad Plentyndod Da 2017:

1. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o gyllid i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi anafteision lluosog, gyda phwyslais arbennig ar wasanaethau cymorth cynnar.

Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod nifer arwyddocaol o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn wynebu anafteision lluosog yn eu bywydau, gyda 50,000 o blant 10 i 17 oed yn unig yn profi saith neu fwy o anafteision sy'n effeithio ar eu lles. Mae profiadau anafteisiol yn amrywio o galedi ariannol ac esgeulustod emosiynol i fod yn agored i rieni'n camddefnyddio alcohol a thrais domestig yn y cartref. Mae dystiolaeth o'r adroddiad yn dangos po fwyaf yw'r anafteision ym mywyd plentyn, mwyaf oll yw'r tebygrwydd y byddan nhw'n wynebu lefelau is o les goddrychol.

Mae cefnogaeth gan y gwasanaethau plant yn helpu i atal anafteision lluosog rhag datblygu a chynyddu. Dyrannodd Setliad Refeniw Llywodraeth Leol 2017/18 Llywodraeth Cymru gyfanswm o £426.8 miliwn i wasanaethau plant. Dyma gynnydd o £2 filiwn (cynnydd o 0.5%) ers 2016/17. Ond mae hyn yn sylweddol is na chyfradd chwyddiant ar hyn o bryd, ac

mewn gwirionedd mae'n gyfystyr â lleihad 0 2.5% yn y cyllid i wasanaethau plant. Golyga hyn fod yn rhaid i'r gwasanaethau hyn weithredu dan gyfyngiadau sylweddol ar eu cyllid. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod nifer y plant mewn angen yng Nghymru wedi parhau yr un fath ers 2010.

Mae'r cyfyngiadau ar gyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar yn cael effaith uniongyrchol ar y pwysau sydd ar wasanaethau plant. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud y penderfyniad anodd i leihau gwariant ar wasanaethau cymorth cynnar ac ataliol oherwydd prinder cyllid digonol. Mae hyn yn gadael plant a phobl ifanc heb y gefnogaeth hanfodol sy'n aml yn helpu i reoli a goresgyn problemau cyn i'r sefyllfa droi'n argyfwng. Mae canolfannau plant, cymorth yn ystod beichiogrwydd yn yr arddegau a seibiannau byr ar gyfer plant anabl ymhlith rhai o'r gwasanaethau a effeithiwyd gan y cyfyngiadau ar gyllid. Mae'r ymyriadau hyn yn werth da am arian, ac yn arbed arian yn y pen draw.

Argymhellion:

- Dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r diffyg ariannol disgwyledig mewn gwasanaethau plant yng Nghymru yn y Gyllideb nesaf.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio amrywiadau lleol mewn lles plant sy'n profi anfanteision lluosog i bennu sut y dylai'r cyllid ychwanegol hwn gael ei ddyrannu. Dylid rhoi pwyslais penodol ar ddarparu gwasanaethau cynnar er mwyn atal cynnydd mewn anghenion.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o gyllid i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi anfanteision lluosog, gyda phwyslais arbennig ar wasanaethau cymorth cynnar.

Mae gan asiantaethau lleol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd rôl hanfodol yn y gwaith o alluogi amgylchedd cefnogol a gwarchodol fel y gall pobl ifanc ffynnu a llewyrchu. Sefydlwyd Bwrdd gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ym mhob ardal awdurdod lleol i wella lles yn lleol a chryfhau cydweithrediad ar draws gwasanaethau.

Dylai'r Byrddau fynd i'r afael â lles isel plant sy'n profi anfanteision lluosog yn eu cynllun lles lleol trwy wneud hyn yn flaenoriaeth uchaf i bob asiantaeth leol. Dylai'r cynlluniau hyn asesu amllder anfanteision ymhlith plant yn lleol. Dylai'r wybodaeth hon lywio proffil blynyddol lleol plant a phobl ifanc sy'n dwyn ynghyd yr ystod o ddata sydd ar gael am fywydau plant yn yr ardal.

Ar sail rhai o'r anfanteision a nodwyd yn Adroddiad Plentyndod Da 2017, dylai cynlluniau lles lleol bennu darpariaeth

ar gyfer plant sy'n wynebu anfanteision lluosog, gan ganolbwyntio ar anawsterau mewn cydberthnasau teuluol, amgylchiadau aelwydydd, ffactorau materol ac economaidd a phrofiadau'r gymdogaeth, gan gynnwys ofni trosedd. Dylai cynlluniau amlinellu dulliau o gyflawni ymatebion integredig, gan gynnwys arwyddbyst ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n profi anfanteision lluosog gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n hollataidd. Er enghraifft, trwy sicrhau bod cefnogaeth trwy eiriolaeth ar gael i blant a phobl ifanc sy'n profi esgeulustod emosiynol, neu trwy ddatblygu llwybrau clir tuag at gefnogaeth ar draws yr holl asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n profi anfanteision lluosog.

Mae ein rhaglen lles plant wedi dangos yn gyson mai gwranddo ar blant a rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan mewn penderfyniadau yw'r ffordd orau o sicrhau bod atebion polisi ac ymarfer yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc. Dylid cynhyrchu cynlluniau lles lleol ar y cyd â phlant a phobl ifanc sy'n byw yn yr ardal leol.

Argymhellion:

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio cynlluniau lles i fynd i'r afael â'r anfanteision lluosog y mae plant yn eu hwynebu.
- Dylai'r cynlluniau hyn amlinellu sut bydd asiantaethau yn hyrwyddo lles i blant yn y gymuned.
- Dylid datblygu'r cynlluniau hyn mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc yn yr ardal.

Nodiadau

¹ I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen hon trowch i The Good Childhood Report 2017

² The Children's Society, 2017

³ Ers 2010 mae Cymdeithas y Plant wedi cynnal arolwg rheolaidd o aelwydydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban sy'n economaidd-gymdeithasol gynrychiadol o'r gwledydd hyn. Mae'r don ddiwethaf o'r arolwg – a gynhaliwyd ym Mai/Mehefin 2017 – wedi cynnwys sampl o 3,000 o blant 10-17 oed a'u rhieni.

⁴ DS Bwriedir i'r rhain roi amcan o raddfa'r mater o ran plant 10-17 oed, nid cynhyrchu ffigur manwl gywir. Felly rydym ni wedi talgrynnu'r holl amcangyfrifon i lawr.

⁵ Gan ystyried oedran a rhyw

⁶ Gan ystyried oedran a rhyw

⁷ Llywodraeth Cymru. 2017. 'Setliad Refeniw Llywodraeth Leol Cymru': <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/170328-green-book-cy-v1.pdf> [Fel ar 3 Awst 2017].

⁸ Llywodraeth Cymru. StatsCymru: <https://statscymru.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-in-Need/childreninneed-by-localauthority-categoryofneed>

Mae gormod o blant yn y wlad yma ddim yn teimlo cariad, diogelwch cariad neu'n gallu ymdopi. Gyda'n gilydd, gallwn ni gwella eu bywydau.

Mae'r Children's Society yn elusen cynedlaethol sydd yn gweithio ar sael polisi a materion cyhoeddus yng Nghymru.

Cewch fwy o wybodaeth ar
childrenssociety.org.uk

Am fwy o wybodaeth ar yr adroddiad yma,
cysylltwch â:

Tom Davies
Children and Families Policy Adviser
e: tom.davies@childrenssociety.org.uk
t: 02920 348 274

childrenssociety.org.uk
@ChildSocPol

© The Children's Society 2017. The copyright of all material appearing in this publication belongs to The Children's Society. It may not be reproduced, duplicated or copied by any means without our prior written consent. All images posed by models.
Image on page 6 © iStock. Images on pages 14 and 16 © Laura McCluskey

Charity Registration No. 221124

PCR0136c/0917